SUT DYLECH CHI WASANAETHU DUW?

Nodyn i'r siaradwr:
Helpwch y gynulleidfa i weld mor hawdd yw i unigolyn feddwl ei fod yn gwasanaethu Duw yn dderbyniol ac eto heb fod yn ei foddhau o gwbl. Pwysleisiwch er ei bod yn angenrheidiol byw bywyd moesol ac ymwrthod rhag brifo eraill, nad yw'r pethau hyn ynddynt eu hunain y cwbl y mae Duw yn ei ofyn. Anogwch bob unigolyn i archwilio'i wasanaeth ei hun i Dduw yng ngolau athrawiaethau Iesu

MAE LLAWER BARN YNGLŶN Â SUT I WASANAETHU DUW (5 mun.)

Mae gwahaniaeth barn ar sut y dylem wasanaethu Duw (Gwnewch sylwadau ar yr hyn a wna pobl crefyddau lleol, megis mynychu'r eglwys, cyfrannu iddi, cynnau canwyllau. Peidiwch â chollfarnu, ond dangoswch olygweddau cyferbyniol)

Cred llawer eu bod yn gwasanaethu Duw yn dderbyniol dim ond wrth fod yn garedig a pheidio â brifo eraill (*rs* 327)

Petai rhywun yn gofyn i chi sut i wasanaethu Duw, beth ddywedech chi?

Ai eich ffordd chi o wasanaethu Duw yw'r ffordd gywir?

Nid yw'r ffaith fod bod dynol yn dweud fod Duw yn gofyn am ffordd arbennig ddim yn ei gwneud yn gywir (Diar 14:12)

Dangosodd yr apostol Ioan yr angen i roi prawf ar ffynhonnell gwybodaeth (1In 4:1; *w*88 4/1 30; *w*86 7/15 19)

Gallai'r person sy'n mynegi barn ei hun fod wedi'i gamarwain

Mae angen parhau i wirio, archwilio (2In 7-9; *w*83 4/1 22-4)

Mae'n fater rhy ddifrifol i'w benderfynu gan ddim ond barn rhyw ddyn

Bydd yn ein helpu rhag cael ein twyllo

Gall ein helpu i weld agweddau lle efallai mae angen gwella ein gwasanaeth i Dduw

DYWED Y BEIBL WRTHYM SUT I WASANAETHU DUW (7 mun.)

Gair ysbrydoledig Duw yw'r Beibl, felly cymwys inni wirio'r ffurf gwasanaeth a rown yn erbyn y Beibl

Mae llyfrau Ioan, sy'n cloi canon y Beibl, yn ein helpu

Mae'r apostol Ioan yn ein rhybuddio o'r ffaith y gall fod y rhai sy'n tybio eu bod yn gwasanaethu Duw yn dderbyniol yn methu'r nod ynglŷn â'r hyn mae gofyn amdano (In 8:41-47; *gt* 69)

Gallai hyd yn oed pobl sy'n credu eu bod yn ddiffuant ganiatáu i fuddiannau personol achosi iddynt fethu â gweld amcan neges Duw (Adroddwch am yr hyn sydd yn In 6:1-13, 22-26; *gt* 52-4)

Nesaodd rhai at Dduw neu Iesu oherwydd diddordeb mewn anghenion personol, ond 'doedd hynny ddim yn foddhaol

Fel yn hanes yr Israeliaid a fwytaodd y manna ond heb ddyfalbarhau yn y ffydd, ni ddyfalbarhaodd rhai a glywodd Iesu yn yr ymchwil am y ffordd orau i wasanaethu (Num 21:4-6; In 6:27-29, 48-51, 66)

Gall fod rhai unigolion diffuant yn gweithredu yn erbyn pwrpasau Duw (In 16:2; *pe* 31-2)

'Dydym ni ddim eisiau bod yn debyg i rai o'r fath

Mae angen inni gael awydd yn y galon i wasanaethu Duw yn ôl ei ofynion

Parodrwydd i ddysgu a derbyn yr hyn a ddywed

Penderfynu gwneud ei ewyllys yn llawn

IESU SY'N GOSOD ESIAMPL O SUT I WASANAETHU DUW (30 mun.)

Iesu Grist yw'r brif esiampl inni o sut dylem wasanaethu Duw

Oherwydd y rhan allweddol sydd iddo ym mhwrpas Duw, iawn y gallodd Iesu ddweud: "Myfi yw'r ffordd a'r gwirionedd a'r bywyd" (In 14:6; *it*-2 60; *w*92 3/1 18; *g*66 9/8 5-8)

Ef yw'r "ffordd" i sicrhau perthynas addas â Duw a'r ffordd i ddod ato Ef mewn gweddi (*it*-2 1174)

Ef yw'r "gwirionedd," ymgorfforiad y gwirionedd, y sylwedd byw a ragfynegwyd gan Gyfraith Moses (*it*-2 62, 1131)

Ef yw'r "bywyd," oherwydd trwy gyfrwng ei aberth, medrwn ennill fywyd tragwyddol (Act 3:15; 4:12; *it*-2 61)

Mae athrawiaethau ac esiampl Iesu yn profi fod ein gwasanaeth i Dduw yn mynd y tu hwnt i'n hymddygiad moesol a'n gweithredoedd o garedigrwydd dynol (*w*80 8/15 31)

(Wrth ddatblygu'r canlynol, addaswch i anghenion y gynulleidfa. Cynhwyswch enghreifftiau a phrofiadau ymarferol er mwyn gwneud y pwyntiau'n fyw a dangos fod Cristionogion heddiw yn gwasanaethu Duw yn dderbyniol)

Mynnodd Iesu safonau moesoldeb uchel; rhaid i bawb sydd am wasanaethu Duw yn dderbyniol heddiw wneud yr un modd

'Ydym ni'n amlygu yn ein hadloniant a'n siarad ein bod yn glynu'n gadarn wrth safonau moesol uchel? (1In 1:6; 3:8; *w*86 7/15 11, 16)

Yr un pryd, dangosodd Iesu mai dim ond os yw'n bywydau yn adlewyrchu ei gyfiawnder y mae'n gwasanaeth i Dduw yn dderbyniol (*om* 191-2)

Dinoethodd a chondemnio arfer gweithredoedd drwg (In 3:19-21; 7:7)

Canmolodd bod yn rhydd oddi wrth dwyll ac annog ei ddisgyblion i ymryddhau oddi wrth gaethiwed pechod (In 1:47; 8:31-36; *w*88 5/1 9; *g*79 2/8 27-8)

A ninnau'n amherffaith, efallai y pechwn yn anfwriadol, ond nid yw'r un sy'n gwasanaethu Duw yn 'arfer' pechod, neu ddyfalbarhau ynddo, ac yna resymoli amdano neu ei guddio (1In 3:9; *w*86 7/15 16)

Hyrwyddodd Crist gariad diffuant tuag at gyd-ddyn (Mth 22:39; In 13:35)

Mae'n hanfodol caru bodau dynol eraill os honnwn garu Duw a'i wasanaethu

Rhaid dangos hynny trwy weithredoedd (1In 3:15-18; *g*86 10/8 23-4; *w*86 7/15 17-18) (Adroddwch brofiadau am frodyr a ddangosodd garedigrwydd dynol at gymdogion neu eraill, gyda chanlyniadau da; *w*92 2/15 18; *w*90 5/1 31; *yb*90 8)

Anogai Iesu yn erbyn balchder, cystadleuaeth, gweithredoedd hunanol (In 13:12-17)

Rhaid i'r rhai sy'n honni gwasanaethu Duw ond nad ydynt yn efelychu Iesu yn hyn o beth newid (3In 9; *w*83 4/1 28-9)

Rhaid i'r rhai a chanddynt fwy o arian, addysg, neu allu nag eraill, y derbyniant glod neu sylw o'u herwydd, geisio cynnal agwedd Iesu wrth iddynt wasanaethu Duw

Wrth wasanaethu Duw, cyfeiriodd Iesu sylw at yr enw dwyfol (In 12:28; 17:6, 11; *na* 14-16)

Mae llawer o grefyddau sy'n honni gwasanaethu Duw yn gyndyn o ddefnyddio enw Duw

Mae rhai yn dadlau ynglŷn â'r ynganiad Hebrëig cywiraf, gan ddefnyddio hynny'n esgus i osgoi dweud yr enw (*na* 8-11)

'Fyddwn ni'n cynnwys defnyddio'r enw dwyfol yn ein sgwrs, a'i gwneud yn amlwg felly pwy ydym a phwy a wasanaethwn? (*w*80 2/1 13-16; *na* 7, 11, 28-31)

Peidiwn byth â chuddio'r enw na bod â chywilydd ohono

Arhosodd Iesu'n gadarn niwtral o ran pethau'r byd (In 6:14, 15; 17:14)

'Ydi crefyddau gwledydd Cred yn gwneud hynny? A ellir dweud amdanynt eu bod yn gwasanaethu Duw fel y gwnaeth Iesu?

Fodd bynnag, mae llawer o wir Gristionogion heddiw yn profi cael eu gwawdio, eu hambygio, a'u herlid oherwydd cadw niwtraliaeth (In 16:1, 2; *yb*94 98-9, 207-8; *yb*89 111-25; *w*86 1/1 27; *w*80 4/15 6-15)

Er nad oes raid inni oedi uwchben helyntion posib' y dyfodol a allai ddod i'n rhan oherwydd ein safiad ar niwtraliaeth, da o beth yw atgoffa'n hunain ynglŷn â'n penderfyniad i fod fel Iesu, nid yn rhan o'r byd

Pwysleisiodd Iesu gael rhan weithredol yn y chwilio am bobl deilwng a chyhoeddi newydd da'r Deyrnas iddynt (In 4:34-36)

Mae llawer o bobl sy'n honni gwasanaethu Duw yn gyndyn o siarad amdano a'i addoliad (In 12:42, 43)

'Ydym ni'n chwilio am gyfleon i siarad ag eraill oherwydd ein hawydd i ganfod pobl defaid-debyg ac am ein bod yn hapus yn moliannu Duw? (*w*90 9/15 12-17; *w*77 117-19)

Da o beth yw i bob un ohonom ddadansoddi ein rhan ein hun yn y gwaith pregethu

'Ydi hi wedi gwella o ran ansawdd neu faint?

'Ydym ni'n canfod unrhyw duedd i'w hystyried yn llai pwysig nag a wnaem gynt?

Mae bod yn frwdfrydig i gadw gorchmynion Duw, gan gynnwys yr un i gyhoeddi'r newydd da, yn ffordd bwysig o ddangos ein bod yn caru Duw a'n bod ni'n dymuno'i wasanaethu (1In 2:3, 4; 5:3; *w*86 7/15 12)

MI FEDRWCH CHI WASANAETHU DUW YN DDERBYNIOL, OND *'WNEWCH* CHI? (3 mun.)

Mi *fedrwn* ni wasanaethu Duw yn dderbyniol

Gwasanaethodd bodau dynol fel ni yn y ganrif gyntaf C.C. Dduw yn dderbyniol drwy gadw gorchmynion Crist a dilyn ei esiampl (In 14:21; Act 4:13, 19, 20)

Mae llawer o'n cwmpas heddiw hefyd wedi gwasanaethu Duw yn dderbyniol (Gweler profiadau a restrir dan *"Life Stories of Jehovah's Witnesses"* yn *Watch Tower Publications Index*)

Mae pob un ohonom yn wynebu cwestiwn terfynol: *'Wnawn* ni wasanaethu Duw?

Bydd gwneud hynny'n gofyn am ymdrech, ffydd, y gallu i ymddál

Mae Duw am inni ei wasanaethu, felly darparodd gymorth drwy gyfrwng y Beibl a'r gynulleidfa Gristionogol

'Wnawn ni dderbyn y cymorth hwn a'i wasanaethu Ef?

Mae Ioan yn ein sicrhau ni os gwnawn ni hynny, mai bendith fydd y canlyniad (1In 2:24, 25)

(Glynwch yn glòs wrth y deunydd a amlinellwyd, a chadw at yr amser a nodwyd ar gyfer pob adran. 'Does dim angen darllen pob testun a grybwyllir. 'Does dim rhaid crybwyll y deunydd ffynhonnell mewn cromfachau)